# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

# DYDD MERCHER, 9 AWST 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd) (Yn rhithwir)

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
A. Evans W.T. Evans

**Arsylwyr (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd S.A. Curry

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.29 yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 2 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn arwain at gyhoeddi ffilm heb dystysgrif a byddai hynny'n tanseilio'r amcanion trwyddedu.**

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Llinos Hallgarth, ar ran Cered - Menter Iaith Ceredigion, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilm a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilm a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan Gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymhelliad gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilm, cafodd gyfle i wylio'r ffilm gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL y byddai "Teulu Tŷ Crwn" yn cael ei hystyried yn ffilm yr argymhellir i blant ei gwylio yng nghwmni oedolyn (PG).**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**